Canllaw Cydymffurfiaeth i'r Sector: Amlygrwydd Gormodol

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a phwrpas
2. Masnachol
3. Pleidiau gwleidyddol
4. Pynciau a safbwyntiau cynhennus
5. Pynciau a safbwyntiau sydd ddim yn gynhennus
6. Elusennau
7. Cyfnodau etholiad a refferendwm
8. Cyflwynwyr
9. Gosod cynnyrch

1. Cyflwyniad a phwrpas

1.1. Wrth adlewyrchu ein cymdeithas a'r oes fodern, mae'n anochel y bydd cyfeiriadau at frandiau neu wasanaethau, mudiadau neu safbwyntiau gwleidyddol, yn ymddangos yn ein cynnwys mewn amryw o ffyrdd. Ein her felly ydy sicrhau bod cyfeiriadau o'r mathau hyn wedi'u cyfiawnhau'n olygyddol, nad ydym yn rhoi amlygrwydd gormodol iddynt, a'n bod ni yn cydymffurfio â'n dyletswydd gyffredinol fel darlledwr cyhoeddus i fod yn ddiduedd a theg.

1.2. Pwrpas cyntaf y canllaw yma yw darparu arweiniad ar ddisgwyliadau S4C o'i chynhyrchwyr yn gysylltiedig â'r rheolau a nodir gan Ofcom ar amlygrwydd yn y Côd Darlledu. Ail bwrpas y canllaw yw mynd ymhellach na hynny drwy ddarparu arweiniad ar faterion cysylltiedig nad yw'r Cod Darlledu yn ymdrin â nhw yn benodol, ond sy'n codi cwestiynau cyson yn y broses gynhyrchu.

1.3. Mae S4C yn cydnabod yr her gynhenid sy'n wynebu cynhyrchwyr wrth fynd i'r afael â'r agwedd yma o gydymffurfiaeth darlledu, yn enwedig oherwydd bod amlygrwydd yn gysyniad goddrychol, sy'n ei wneud yn anodd cymhwyso'r rheolau perthnasol mewn rhai achosion. Bwriad y canllaw yma felly yw cynnig cymaint o eglurder â phosib er mwyn helpu cynhyrchwyr, nid yn unig o ran hwyluso'r broses gynhyrchu, ond hefyd er mwyn arbed amser a chostau ychwanegol wrth gyfleu cynnwys i S4C.

1.4. Disgwylir i gynhyrchwyr gydymffurfio'n llwyr â gofynion y canllaw hwn, ac argymhellir iddynt ymgorffori'r canllaw i'w polisïau perthnasol eu hunain. Rhaid i gynhyrchwyr hysbysu comisiynydd perthnasol S4C cyn gynted â phosib ynglŷn ag unrhyw gwestiwn neu bryder ynghylch unrhyw agwedd o gydymffurfiaeth, ac ym mhob achos, cyn i'r cynnwys gael ei gyfleu i S4C.

1.5. I osgoi amheuaeth, mae S4C yn cadw rheolaeth olygyddol lwyr dros unrhyw gynnwys a gynhyrchir ar gyfer S4C a disgwylir i gynhyrchwyr ddatrys unrhyw gais rhesymol gan S4C i olygu neu newid y cynnwys hwnnw.

2. Masnachol

2.1. Er bod modd cael cyfeiriadau masnachol mewn cynnwys, rhaid cael cyfiawnhad golygyddol ym mhob achos. Rhaid i gynhyrchwyr hefyd sicrhau bod natur y fath gyfeiriadau yn addas, ac nad oes sylw gormodol yn cael ei roi iddynt.

2.2. Oni bai mewn cynnwys sy'n adolygu cynnyrch, pan fydd fel arfer cyfiawnhad golygyddol, dylid osgoi sylwadau neu ddisgrifiadau sy'n ffafriol, ac os cânt eu cynnwys, rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros hynny. Hefyd, dylai cynhyrchwyr osgoi unrhyw saethiadau agos neu hir o frandiau, logos neu sloganau a dylid osgoi unrhyw gyfeiriadau llafar lle mae'n bosib (gweler paragraff 2.5 isod hefyd).

2.3. Yn ymarferol, mae S4C yn cydnabod y gall dehongli a chymhwyso'r rheolau hyn fod yn heriol ac felly, fel man cychwyn, awgrymir y dylai cynhyrchwyr ystyried y rhestr isod o ystyriaethau wrth asesu p'un ai bod yna gyfiawnhad golygyddol dros gynnwys cyfeiriadau masnachol, ac os oes, ydy'r defnydd yn rhoi gormod o amlygrwydd iddynt ai peidio:

- Ydy'r nifer o gyfeiriadau yn afresymol neu'n ormodol yng nghyd-destun y cynnwys?
- Ydy'r cyfeiriadau yn tynnu gormod o sylw at y cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach? H.y. a yw'r cyfeiriadau'n ymddangos fel hyrwyddiad neu hysbyseb?
- Ydy'r cyfeiriadau yn ychwanegu rhywbeth at y cynnwys, neu a ydynt yn teimlo'n annaturiol neu'n ddiangen?

Cyfranwyr sydd â chysylltiad â brand/cynnyrch/gwasanaeth

2.4. Ni ddylid cynnwys cyfeiriad at frand, cynnyrch neu wasanaeth os oes yna gyfrannwr neu gyfranwyr sydd â diddordeb neu gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r brand, cynnyrch neu wasanaeth hwnnw, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, oherwydd fe all hynny gryfhau'r posibilrwydd bod y gynulleidfa yn ei weld fel hyrwyddiad.

Cyfeiriadau llafar

2.5. Fel rheol, ystyrir bod cyfeiriadau llafar yn rhoi amlygrwydd cryfach na chyfeiriadau gweledol a dylid osgoi eu cynnwys oni bai bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud. Ymhellach, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol cryf sydd wedi ei gymeradwyo gan gomisiynydd perthnasol S4C, ni ddylid cynnwys cyfeiriad gweledol a chyfeiriad llafar gyda'i gilydd i gyfeirio at yr un peth.

Effaith gynyddol y cyfeiriadau

2.6. Rhaid i gynhyrchwyr hefyd ystyried, os oes mwy nag un cyfeiriad o'r un natur neu o natur debyg mewn cynnwys, effaith gynyddol y cyfeiriadau wrth edrych arnynt gyda'i gilydd ac yn eu cyfanrwydd. Yn achos cyfresi, dylai cynhyrchwyr ystyried effaith hyn ar draws yr holl benodau sy'n cynnwys yr un cyfeiriadau.

2.7. Mae effaith gynyddol yn debygol o fod ar ei fwyaf pan fydd brandiau, cynnyrch neu wasanaethau yn cael eu rhyddhau ac felly dylid ystyried unrhyw sgîl effeithiau posib yr amseru.

2.8. Dylid lleihau effaith gronnus y cyfeiriadau cymaint ag sy'n bosib, a dylai cynhyrchwyr ymgynghori â chomisiynydd perthnasol S4C cyn gynted â phosib os oes unrhyw bryder neu amheuaeth ynghylch effaith posib y cyfeiriadau.

3. Pleidiau gwleidyddol

3.1. Oni bai mewn achosion ble mae yna gyfiawnhad golygyddol, ni chaniateir unrhyw gyfeiriadau, gweledol na chlywedol, at unrhyw blaid wleidyddol mewn cynnwys. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o (ond heb ei gyfyngu i) ddillad, bathodynnau, fflagiau, ac/neu arwydd neu ystumiau corfforol sy'n cynrychioli neu sy'n uniongyrchol neu anuniongyrchol gysylltiedig â phlaid wleidyddol gydnabyddedig.

3.2. Hyd yn oed pan fydd cyfiawnhad golygyddol, dylai cynhyrchwyr barhau i arsylwi'r gofyniad i beidio rhoi amlygrwydd gormodol i gyfeiriad, a sicrhau bod y cynnwys yn cydymffurfio â'r rheolau diduedd rwydd dyladwy o dan adran 5 Cod Darlledu Ofcom, yn ogystal â'r rheolau tegwch o dan adran 7 Cod Darlledu Ofcom.

3.3. Mewn amgylchiadau lle nad oes modd osgoi neu ragweld y byddai'r fath gyfeiriad yn ymddangos wrth saethu ar gyfer rhaglen, ac nid oes modd datrys y broblem yn ystod cynhyrchu, rhaid i gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn dod i ddatrysiad priodol, gan ddefnyddio dulliau golygu addas, fel nad yw'r cyfeiriad yn ymddangos yn nhoriad terfynol y rhaglen pan ei gyflëir i S4C. Pan nad yw'n bosib gwaredu'r cyfeiriadau yn llwyr, rhaid i gynhyrchwyr leihau'r cyfeiriadau gymaint ag sy'n ymarferol bosib.

3.4. Pan yn berthnasol, rhaid i gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau ynghylch cyfnodau etholiad a refferendwm (gweler adran 7 isod).

4. Pynciau a safbwyntiau cynhennus

Dillad, bathodynnau, fflagiau, sticeri ac ati ("nwyddau"), sy'n mynegi neu sy'n gysylltiedig â phynciau neu safbwyntiau cynhennus

4.1. Mae'n anochel y bydd achlysuron pan fydd cyfranwyr yn gwisgo nwyddau sy'n mynegi eu cefnogaeth o bwnc neu safbwynt cynhennus, a thrwy hynny, yn rhoi amlygrwydd

iddynt. Gall hyn gynnwys cyfranwyr yn gwisgo nwyddau yn gysylltiedig â mudiad neu ymgyrch sy'n hyrwyddo pynciau neu safbwyntiau cynhennus neu wleidyddol.

4.2. Gall 'bwnc neu safbwynt cynhennus' fod yn fater o bolisi cyhoeddus neu'n wleidyddol neu'n ddiwydiannol ddadleuol. Gall hefyd fod yn elfen gynhennus o fewn crefydd, gwyddoniaeth, cyllid, diwylliant, moesau neu unrhyw fater arall. Awgrymir y dylid ystyried y canlynol wrth asesu a yw pwnc neu safbwynt yn gynhennus:

- natur a lefel y ddadl gyhoeddus;
- pa mor gyfredol ydyw;
- os yw'n bwnc neu safbwynt sy'n ymwneud â neu sy'n gysylltiedig â pholisi cyhoeddus cyfredol;
- sensitifrwydd y pwnc neu'r safbwynt o ran cred a diwylliant cynulleidfaoedd perthnasol;
- ydy'r pwnc neu'r safbwynt yn fater o ddadl neu bwysigrwydd dwys mewn cenedl, rhanbarth, cymuned neu ardal sy'n debygol o ffurfio rhan sylweddol o'r gynulleidfa;
- a oes adroddiadau annibynnol wedi'u comisiynu gan sefydliadau cydnabyddedig a dibynadwy, ac sydd heb eu herio gan sefydliadau cydnabyddedig a dibynadwy arall; ac/neu
- y gwahaniaeth rhwng materion sydd wedi ei seilio yn ffeithiol, a'r rheiny sy'n fater o farn.

4.3. Bydd cyfeiriadau o'r math yma'n aml yn creu problem ddeublyg: yn gyntaf, gall y ffaith bod cyfrannwr yn gwisgo neu'n arddangos nwyddau roi amlygrwydd i bwnc neu safbwynt cynhennus; ac yn ail, (yn dibynnu ar y nwydd dan sylw) roi amlygrwydd i gyfeiriad masnachol e.e. logo neu slogan y mudiad neu'r ymgyrch cynhennus dan sylw. Oherwydd natur ddadleuol y math yma o gyfeiriadau, gosodir cyfyngiad llym ar eu cynnwys. Felly, oni bai am yr amgylchiadau a nodir isod lle mae'n bosib y bydd cyfiawnhad, ni ddylid cynnwys cyfeiriadau at nwyddau sy'n mynegi neu sydd â chysylltiad â phwnc neu safbwynt cynhennus mewn cynnwys.

4.4. Gyda hynny, disgwylir i gynhyrchwyr pan fydd yr amgylchiadau yn caniatáu, ofyn i gyfranwyr beidio gwisgo neu arddangos nwyddau sy'n mynegi neu sydd â chysylltiad â phwnc neu safbwynt cynhennus.

4.5. Yn anochel, fe fydd achlysuron lle na fydd yr uchod yn bosib, er enghraifft, os nad yw'n ymarferol resymol i gysylltu â'r cyfranwyr cyn saethu. Mewn sefyllfa o'r fath, dylai cynhyrchwyr wneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau nad yw'r cyfeiriadau yn ymddangos yn y cynnwys a gyflëir i S4C, neu pan nad yw'n bosib gwaredu'r cyfeiriadau yn llwyr, i leihau'r cyfeiriadau gymaint ag sy'n ymarferol bosib.

4.6. Yn ogystal â'r uchod, gall fod yna gyfiawnhad golygyddol mewn rhai cynyrchiadau dros ganiatáu cyfeiriadau o'r fath gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, raglenni lle mae pynciau a safbwyntiau cynhennus yn ffurfio rhan o destun y rhaglen. Er hynny, rhaid i gynhyrchwyr ystyried os yw'r cyfeiriadau hynny'n rhesymol a lleihau unrhyw amlygrwydd gymaint ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol bosib. Ym mhob achos, S4C fydd â'r rheolaeth olygyddol lwyr dros benderfynu os yw'r fath gyfeiriadau yn briodol ai peidio.

4.7. Yn gyffredinol mae cyfeiriadau llafar yn creu mwy o amlygrwydd na chyfeiriadau gweledol. Mae'r disgwyliad i gynhyrchwyr osgoi cynnwys cyfeiriadau llafar yn uwch na chyfeiriadau gweledol gan fod gan gynhyrchwyr yn gyffredinol fwy o reolaeth drostynt, a gan ei fod yn aml yn haws hepgor cyfeiriad llafar wrth olygu'r cynnwys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Effaith gynyddol y cyfeiriadau ac unigolion sydd â chysylltiad â brand/cynnyrch/gwasanaeth

4.8. Mae'r canllawiau uchod ar 'effaith gynyddol y cyfeiriadau' ac 'unigolion sydd â chyswllt â brand/nwyddau/gwasanaethau' yn gysylltiedig â chyfeiriadau masnachol (paragraff 2 uchod) yn cymhwyso yn yr un modd i gyfeiriadau at bynciau neu safbwyntiau cynhennus. Dylai cynhyrchwyr ystyried os oes gan gyfrannwr sy'n gwisgo neu'n arddangos nwyddau gysylltiad eithriadol a allai roi mwy o sylw i'r pwnc neu'r safbwynt cynhennus na chyfrannwr sydd heb gysylltiad tebyg. Gall hyn gynnwys, heb gyfyngiad, unigolyn sydd yn adnabyddus am fod yn llafar am neu sydd â chysylltiad adnabyddus gyda phwnc neu safbwynt cynhennus.

5. Pynciau a safbwyntiau sydd ddim yn gynhennus

5.1. Disgwylir i gynhyrchwyr ymdrin â chyfeiriadau at nwyddau sy'n gysylltiedig â phwnc neu safbwynt (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i fudiad neu ymgyrch) sydd ddim yn gynhennus yn yr un modd â chyfeiriadau masnachol.

6. Elusennau

6.1. Mae dyletswydd ar S4C, fel darlledwr cyhoeddus, i sicrhau ei fod yn rhoi sylw teg i amrediad eang o elusennau, ac i beidio ffafrio neu roi sylw gormodol i elusennau penodol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yma, rhaid i gynhyrchwyr sicrhau nad oes amlygrwydd gormodol yn cael ei roi i elusen mewn rhaglen, a/neu yn achos cyfres, bod sylw teg yn cael ei roi i amrediad o elusennau.

6.2. Oherwydd y ddyletswydd uchod, dylai cynhyrchwyr ofyn am ganiatâd gan gomisiynydd S4C pa bynnag bryd bydd bwriad i gynnwys apêl elusennol mewn cynnwys.

6.3. Gofynnir i gynhyrchwyr ystyried hyn yn yr un modd ag unrhyw achos arall o amlygrwydd gormodol posib mewn cynnwys, ac i asesu a oes yna gyfiawnhad golygyddol dros gynnwys cyfeiriad at elusen. Yn ogystal, disgwylir i gynhyrchwyr sicrhau eu bod wedi gwirio statws yr elusen dan sylw a sicrhau, lle'n berthnasol, nad oes unrhyw waharddiadau ynghylch ei hysbysebu ar deledu.

6.4. Dylai cynhyrchwyr drafod gyda'r comisiynydd perthnasol os oes yna gwestiynau ynghylch addasrwydd unrhyw gyfeiriad at elusen, a hefyd os oes cysylltiad rhwng cyflwynydd neu gyfrannwr ag elusen a allai achosi problem.

7. Cyfnodau etholiad a refferendwm

7.1. Ni all unrhyw gyfeiriadau gwleidyddol gael eu gwneud yn ystod cyfnod etholiad a/neu refferendwm (fel y'i diffinnir isod), ac eithrio pan fydd cyfiawnhad golygyddol dros gael y fath gyfeiriadau mewn cynnwys gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, rhaglen sy'n trin a thrafod etholiad a/neu refferenda. Mae hyn felly yn golygu nad yw cyfeiriadau gwleidyddol sydd fel arall yn dderbyniol yn unol â'r polisi hwn yn briodol os yw'r cynnwys yn cael ei ryddhau yn ystod cyfnod etholiadol.

7.2. Mae cyfnod etholiad yn rhedeg o'r amser pan mae'r Senedd yn cael ei ddiddymu (sef fel arfer chwe wythnos cyn yr etholiad rhestredig), hyd at pan mae'r bleidlais yn cau. Yn achos refferendwm, gall y cyfnodau amrywio fel y cyhoeddir mewn deddf neu fesur.

7.3. Rhaid i gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau etholiadau a refferenda S4C a gyhoeddir a'i diwygir o dro i dro yma. Dyletswydd y cynhyrchwyr yw

sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ganllawiau newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddir gan S4C cyn cyfleu unrhyw ddeunydd yn gysylltiedig ag etholiad a/neu refferendwm.

8. Cyflwynwyr

8.1. Mae gan gyflwynwyr rôl flaenllaw mewn cynnwys ac felly mae yna amlygrwydd cynhenid y dylid cymryd i ystyriaeth. Ni all cyflwynwyr arddangos unrhyw gyswllt â phlaid wleidyddol, nac ychwaith ddangos cyswllt â mudiad neu ymgyrch wleidyddol, ac ni ddylant ychwaith rannu daliadau (fel y'i diffinnir yn adran 4 y canllaw hwn) wrth ymddangos mewn rhaglen fel cyflwynydd.

8.2. O ystyried rôl gynrychioliadol cyflwynwyr, a'r lefel o reolaeth gan y cynhyrchydd y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl, mae yna ddisgwyliad uwch y byddant yn osgoi rhoi amlygrwydd i frandiau, sloganau, cynnyrch a gwasanaethau masnachol.

8.3. Disgwylir i gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chanllawiau Cydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau a Diddordebau Gwleidyddol S4C sydd ar gael yma.

9. Gosod cynnyrch (*product placement*)

9.1. Mae 'gosod cynnyrch' yn golygu cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nôd masnach mewn rhaglenni neu gynnwys arall, neu gyfeirio atynt, a hynny at ddibenion masnachol ac yn gyfnewid am daliad neu ystyriaeth brisiadwy arall.

9.2. Rhaid i gynhyrchwyr arsylwi'r holl reolau perthnasol ar osod cynnyrch (gan gynnwys gosod propiau hefyd), a chofio bod angen cyfiawnhad golygyddol digonol bob amser ar gyfer gosod cynnyrch. Mae arweiniad i gynhyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau gosod cynnyrch yng Nghanllawiau Gosod Cynnyrch S4C sydd ar gael yma.

9.3. Yn ogystal, rhaid i gynhyrchwyr, wrth gyfeirio at osod cynnyrch, gwasanaethau a nodau masnach, sicrhau nad ydynt yn cael eu hyrwyddo nac yn rhy amlwg.

Medi 2022